**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**2$^{il}$ Chwefror 2009**

**FORTEK RAPPEL – SYSTEM ARGAELEDD RHAN AMSER**

**Adroddiad gan Colin Hanks**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Cynghori Aelodau o gynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Brosiect Cydnerth Cymru Gyfan i ariannu'r ddarpariaeth o'r System Argaeledd Rhan Amser Fortek RAPPEL yn gyfan gwbl.

**Cefndir**

2 Cyn newid y Systemau Meistroli a Rheoli i Fortek Vision a symud y Ganolfan Cyfathrebiadau ar y Cyd, fe brynwyd y System Argaeledd Rhan Amser Assetco ym mis Mawrth 2007.

3 Ar 2$^{il}$ o Ragfyr, fe gynghorodd Mr Nigel Williams, Rheolwr Prosiect Cydnerth Cymru fod arian ar gael ac, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd wedi gallu cynnig y cynnyrch Fortek RAPPEL i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae system Fortek RAPPEL yn rhyngwynebu'n uniongyrchol gyda Fortek Vision, y mae'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig yn gweithredu yn eu Hystafelloedd Rheoli.

4 Mae'r cynnig yn cynnwys:-

- arian ar gyfer holl galedwedd y system
- arian ar gyfer yr holl feddalwedd system gan gynnwys dadansoddiad anghenion busnes
- arian i hyfforddiant "hyfforddi'r hyfforddwr"
- arian am gostau cefnogi 5 mlynedd
- arian i ddatblygu unrhyw swyddogaethau allweddol.

Amodau'r Cynigion:-

- system i'w osod erbyn 31ain Mawrth 2009
- system i fod yn weithredol erbyn 31ain Mawrth 2010.

**Gwybodaeth**

5 Yng ngoleuni'r anawsterau sy'n cael eu profi gyda system Assetco ar hyn o bryd, ymgrymwyd â cyfres o gyfarfodydd a phrofion i fforio hyfywdra'r system Fortek RAPPEL.

6 Mae'r profi'n adlewyrchu'r ffaith fod RAPPEL yn gymhwysiad "ysgafnach" ac yn perfformio ar gyflymderau cyflymach, haws i'w defnyddio ar draws y rhwydwaith mewnol presennol.

7 Mae system Fortek RAPPEL yn gytun gyda thechnoleg newydd "Unified Communications" Microsoft hefyd. Mae Fortek yn datblygu eu cynnyrch, ar y cyd gyda Microsoft, i gynnwys systemau cyflwyno neges arloesol a statws sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar ddyfodol galw a hyblygrwydd rhan amser.

8 Mae Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru wedi cytuno i dderbyn y cynnig yma sydd felly'n cyflwyno cyfle unigryw i gytuno ar systemau argaeledd rhan amser ar draws Cymru.

9 Manteision y Cynnig

- Wedi'i ariannu gyfan gwbl
- Integreiddiad di-dor gyda Fortek Vision
- Technoleg Unified Communications
- Cytgord Cymru Gyfan
- Unol gydag ymagwedd Cydnerth Cymru Gyfan

**Casgliad**

10 Mae manteision gweithredol arwyddocaol o symud i system Fortek Rappel. Y buddion yma, ynghyd â chymorth ariannol gan Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyfle i weithio'n agosach fyth gyda Gwasanaethau Tân ac Achub partner yng Nghymru, sy'n gwneud yr achos yn fwy grymus. Fodd bynnag, mae'n golygu na fydd y buddsoddiad cychwynnol o £48,412 yn y cynnyrch Assetco yn cael ei sylweddoli oherwydd y cynnig diweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; ond rhaid iddo gael ei osod yn erbyn y buddsoddiad arwyddocaol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

**Argymhelliad**

11 Fod Aelodau yn nodi'r bwriad i symud ymlaen gyda'r cynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r Prosiect Cydnerth Cymru Gyfan i fabwysiadu'r System Argaeledd Rhan Amser Fortek RAPPEL.